

VRONDOLAY,

NEW QUAY,

5.252

SOUTH WALES.

CAROL NADOLIG

I'R

EGLWYSWYR:

"Ffrewyll i furch, ffwyn i asyn, a gwialen i gefn yr
ynfyd."—SOLOMON.

NEU

YCHYDIG O HANES LLANDISSILIOGOGO,

YN 1857.

YN Llandysilio-gogo, gau,
A'i chylchoedd mae rhyfeddod,
Na welwyd yn y nef oddiar,
Nac ar y ddaear isod,
Er dyddiau rhyfedd Tubal Cain
Nes 'yw y brain mewn syndod.

Mae hon ya nŷth i'r brith a'r black,
Cigyddion, Quach feddygwyr,—
Pob math o ragrith aeth i'r Llan
O blith yr Annibynwyr,
Ac o Bensarn a'r Ffynon wân
Ryw geulan o wrthgilwyr.

VRONDOLAY
NEW QUAY
SOUTH WALES
J. H. ROBERTS
PRINTED

Hên Evan "Pennar," byddar, baw,
 A droiodd draw 'n ei wrthol;
 Ac Owain etto ael i'r Llân
 A'i weniath annioddefol,—
 Aed yno'n grwn, y llwdn llaith,
 A'i aflan waith annuwiol.

A'r penbwl byddar, Pennar bâch—
 Miss Rowland—crach foneddig,
 Dangosodd hon i'r byd diboen
 I fod er floen yn ffyrnig
 Ar ol rhyw Wryw 'n wynias wyllt,
 Nes tori'r byllt Eglwysig.

Y gwrth-Eglwyswr mwyaf hallt
 Oedd Jones, Penrallt, a'i deulu,
 Hyd yn ddiweddar, yn "Maengroes,"
 Ei ffoledd droes yn ffactu;
 Fel ceiliog twrci fe aeth bant
 I ganol plant y fagddu.

'Rwy'n clywed etto, ambell awr,
 Pod Scyborfawr am siglo,
 Ar ôl rhyw grwt ga'dd segur swydd—
 Mae gogwydd i Lansihô;
 Ond os bydd olew yn y lamp,
 Hi ddeil y gamp heb gwmpo.

'Rwyn clywed eifwaith, mewn rhyw barch,
 'Fod un o'r arch wrthgilwyr
 Am fyn'd yn bennaeth ar yr haid
 O fleiddiaid a gorthrymwyr,
 Sy'n bwyta beunydd gyda moeth
 O gyfoeth y tyddynwyr.

SOUTH WALES
 YRHOIOL
 BRONTELLIN

'Doedd crefydd rhai'n y dyddiau gynt
 Ond megys gwynt y dwyrain,
 Yn troi oddiamgylch fel rhyw blant
 Lle byddai chwant yn arwain;
 Heb un aychymyg am ei grym,
 A'r cwbl ddim ond damwain.

Ac erbyn hyn, fe roisant hwy
 Ei thraul ar Blwy' Llansilio;
 Trwy orthrwm trethu'r gwych a'r gwan—
 Rhaid (*byth o'r fan*) eu 'speilio—
 Cyn gwneuthur cof am angu trist
 Ein Crist ga'dd ei groeshoelio.

Rhy brin gwerth ceinog yn y mis
 Gan rhai'n yw pris yr Arglwydd;
 Cyn cofio 'i angau wrth y bwrdd,
 Hwyl aethant fwrdd yn ebrwydd,
 Gael cadw'r geiniog—aed i'r Llan,
 Mewn gwarth a than gywilydd.

Mae'r Pagan t'wyla'r gwledydd pell
 Na rhai'n yn well o'r hanner;
 Rhydd hwn ei gwbl oll i gyd,
 A'i fywyd yn ddibryder;
 Gan ddisgwyl budd o'i grefydd gau,—
 Er hyn mae'n llai ysgeler.

Peth mwyaf chwithig dda y neu
 Fod benyw'n ben ar eglwys;
 O bob anffyddwyr aeth ar feth,
 Ysgymun beth anghymwys,
 Gan bob rhyw Enwad tyner fron,
 A'u prif clynon cyfrwys.

Brychau, mellau, maglau, a mwg
 O sawyr drwg a diriaid
 Oedd rhai'n, a gwenwyn diwahân
 I'r eglwys lân fendigaid;
 Ac eto byddant yn ddiau
 A'u castiau fel locustiaid.

Gormeswyr, treiswyr, bradwyr brÿch,
 Hwyluncant ych y weddw;
 A thÿ'r ymddifad, fel yr hwech,
 A wnaht yn swedda llaw,
 Os na cha'nt arian, doed a ddél,
 Myn cythre'l, hwy ga'nt farw.

Fe ddywed Crist yn nydd y farn,
 Fu 'r ioad fath garn o ddiawliad,
 Ysgubion, carthion bro a bryn,
 Er dyddiau'r cynddiluwiaid,—
 Ni chewech 'mo fynydd Ara-rat,
 Ewech ymaith at gythreuliaid.

RHYB Y CRUGLAS a'i cânt.

“A dychwelant gyd â'r hwyr, cyfarthant fel cwn, ac amgylch-
 ant y ddinas.”

“Gwibiaut an fwyd, ac onis diwellir, grwgaachant.”